Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# St David's College

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â St David's College

Mae St David’s College yn ysgol ddydd ac ysgol breswyl annibynnol gydaddysgol sy’n addysgu disgyblion rhwng 9 ac 19 oed. Mae’r ysgol wedi’i lleoli mewn tir helaeth, ychydig i’r de o Landudno yng Ngogledd Cymru.

Agorwyd yr ysgol ym 1965, fel elusen addysgol a sefydlwyd trwy weithred ymddiriedolaeth, i ddarparu addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Cenhadaeth yr ysgol yw ‘datblygu’r unigolyn cyfan trwy addysg eang sydd wedi’i seilio ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordebau a gweithgareddau, a rhaglen bersonol gyflawnadwy ar gyfer pob disgybl.’

Mae 265 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae 100 ohonynt yn ddisgyblion preswyl. Mae tua dau o bob tri disgybl wedi cael diagnosis o ddyslecsia neu anhawster dysgu penodol arall. Mae gan ryw un o bob pump o ddisgyblion gynllun datblygu unigol (CDU) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG).

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Mehefin 2017.

Cynhaliwyd yr arolygiad craidd diwethaf ym mis Tachwedd 2019.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae St. David’s College yn ysgol groesawgar ac anogol. Mae disgyblion yn hyderus ac yn ymgysylltu’n gadarnhaol â staff ac ymwelwyr. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth ar y ddwy ochr. Maent yn darparu arweiniad sensitif i’w cynorthwyo i ddatblygu medrau pwysig, fel gwydnwch. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu’n bwrpasol â’u dysgu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn ymroddgar a gofalgar. Maent yn ymroi’n helaeth i’r disgyblion a bywyd yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion a dyheadau disgyblion.

Mae staff yn yr ysgol yn gweithio er lles pennaf disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn ystod yr ymweliad hwn, roedd ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion yn dda.

Mae penodi caplan newydd yn ddiweddar wedi cryfhau’r ddarpariaeth fugeiliol ymhellach o fewn yr ysgol. Mae’r caplan yn darparu arweiniad a chymorth ysbrydol, gan roi cyfle i fyfyrio ar Gristnogaeth a chrefyddau eraill.

Mae athrawon yn holi disgyblion mewn gwersi yn effeithiol, ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r adborth llafar a gânt yn fawr. Mae athrawon yn bobl hawdd iawn mynd atynt, gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl, trwy ohebiaeth electronig, ac yn ystod amser preswylio. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd llai ffurfiol hyn i drafod eu gwaith. Maent yn parchu’r staff ac yn ymddiried ynddynt yn fawr.

Mae athrawon yn integreiddio’r defnydd o dechnolegau digidol yn nysgu disgyblion yn rhwydd. Er enghraifft, o fewn gwersi, mae disgyblion yn cydweithio i greu cyflwyniad grŵp ar gynhesu byd-eang a’r amgylchedd.

Yn ogystal â’r cwricwlwm craidd, mae’r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu difyr, cyfoethog a dilys. Er enghraifft, ceir ymweliadau addysgol rheolaidd a diddorol, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon tîm a chynyrchiadau cerddorol, ac mae disgyblion i fyny i Flwyddyn 10 yn cael diwrnodau dysgu rheolaidd yn yr awyr agored yn rhan o’r amserlen.

### Meysydd i’w datblygu

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi cryfhau’r cwricwlwm ac wedi ymgorffori ymagwedd gyson at adborth ar draws yr ysgol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn deall yr ymagwedd hon, ac yn ymgysylltu â’r broses yn gadarnhaol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae ymagwedd arweinwyr at sicrhau ansawdd y nodweddion newydd hyn, ac nid yw wedi nodi anghysondebau yn ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Fireinio prosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn canolbwyntio'n graff ar wella'u medrau a'u gwybodaeth

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### A1. Sicrhau bod disgyblion yn derbyn rhaglen ABGI a rhaglen gyrfaoedd drefnus ac ystyrlon ar draws yr ysgol

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol a phwrpasol yn erbyn yr argymhelliad hwn. Ar draws yr ysgol, caiff ABGI ac addysg gyrfaoedd eu goruchwylio'n effeithiol.

Mae'r rhaglen Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) yn drefnus ac yn cwpasu testunau perthnasol sy'n effeithio ar ddisgyblion. Er enghraifft, atgyfnerthwyd trafodaeth mewn gwersi ABGI am beryglon fepio mewn gwasanaethau diweddar. Trwy'r rhaglen ABGI, caiff disgyblion gyfleoedd da i gaffael medrau mewn cadw eu hunain yn iach, ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ac aros yn ddiogel.

Mae'r ysgol wedi rhoi mesurau gwerthfawr ar waith i wella arweiniad gyrfaoedd ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol wedi cyflwyno 'ciniawau gyrfaoedd' lle estynnir gwahoddiad i siaradwyr allanol ddod i siarad am eu swyddi. Daw'r siaradwyr o rolau amrywiol, sy'n cynrychioli'r lluoedd arfog, y diwydiant lletygarwch, adnoddau dynol, bydwreigiaeth a dylunio creadigol. Cryfhawyd y rhaglen gyrfaoedd ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 12 â thrafodaeth unigol am yrfaoedd a llwybrau priodol.

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn astudio entrepreneuriaeth, ac ymdrinnir â thestunau fel llythrennedd ariannol. Caiff disgyblion yn y chweched dosbarth gyfle i gwblhau cymhwyster allanol mewn entrepreneuriaeth. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn trafod swyddi posibl, sut i baratoi ar gyfer y dyfodol, a manteision ac anfanteision eu proffil ar-lein, y gallai darpar gyflogwyr ei weld.

### A2. Cryfhau ansawdd yr adborth i ddisgyblion i sicrhau ei fod yn symud eu dysgu ymlaen

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi ymgorffori ymagwedd glir a chydlynus at ddefnyddio adborth gan athrawon i annog disgyblion a'u helpu i nodi ffyrdd y gallant wella. Caiff gwaith disgyblion ei adolygu'n rheolaidd, a gyda'i gilydd, mae disgyblion ac athrawon yn myfyrio ar 'beth aeth yn dda' a beth fyddai 'hyd yn oed yn well os'. Mae disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses hon, ac wrth iddynt symud trwy'r ysgol, yn hunanfyfyrio â mwy o aeddfedrwydd a chywirdeb.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae dadansoddiad athrawon o waith disgyblion yn canolbwyntio'n graff ar fedrau, gwybodaeth neu dechnegau'r disgybl. Maent yn gwerthuso pa mor llwyddiannus y cafodd y rhain eu cymhwyso i'r dasg neu'r

gweithgaredd ac yn cyfeirio disgyblion yn glir tuag at y ffyrdd a’r dulliau i wella’u gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae sylwadau athrawon yn rhy gyffredinol neu nid ydynt yn nodi’n glir beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  22/01/2024